CYFARFOD, DOGFENNU

# Cofnodion cyfarfod Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio: 14 Rhagfyr 2023

Cofnodion cyfarfod Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio 14 Rhagfyr 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Ionawr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau, a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Ymgynghoriad 'Papur gwyn ar ddigartrefedd' (yng nghyd-destun pobl hŷn) (Henry Norman, Llywodraeth Cymru)

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Cymunedau oed-gyfeillgar a thrafodaeth

Yr hawl i dai digonol, 'Cyflwr tai pobl hŷn' yng Nghymru

Unrhyw fater arall, a dyddiad y cyfarfod nesaf



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

Dr Charles Musselwhite, Prifysgol Aberystwyth
Barry Stephens, Cymru Egnïol
Vicki Lloyd, Age Cymru, Cadeirydd
John Williams, Age Cymru
Faye Patton, Gofal a Thrwsio
Steve Milsom, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, (COPA)
Sarah Rossington-Harris, Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdod Lleol, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
Norma Mackie, Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdod Lleol, Cyngor Caerdydd
Mirain Llwyd Roberts, Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdod Lleol, Cyngor Gwynedd
Adam Greenow, Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdod Lleol, Cyngor Powys
Hayley Gwilliam, Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdod Lleol, Cyngor Abertawe
Rachel Bowen, Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru (Cynghorau Tref a Chymuned)
Tania Harrington, Stonewall Cymru
Peter Walters, Fforwm Pobl Hŷn Cymru
Stewart Blythe, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
Dawn Jeffery, Cymorth i Ferched Cymru
Amal Beyrouty, Women Connect First
Rachel Lewis, Llywodraeth Cymru
Manon Edwards, Llywodraeth Cymru
Emma Harney, Llywodraeth Cymru
Richard Mulcahy, Llywodraeth Cymru
Henry Norman, Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ymddiheuriadau

Jill Salter, Busnes yn y Gymuned
Chris Jones, Gofal a Thrwsio
Dereck Roberts, Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr
Darren Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru

# Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau, a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Nodwyd bod y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf yn gyflawn neu'n barhaus.

Nodwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd wedi mynd i angladd Glenys Kinnock yn Llundain.

# Ymgynghoriad 'Papur gwyn ar ddigartrefedd' (yng nghyd-destun pobl hŷn) (Henry Norman, Llywodraeth Cymru)

Rhoddodd Henry Norman gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriad papur gwyn, a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- mae angen nodi'r risg sy'n gysylltiedig â digartrefedd cyn gynted â phosibl trwy amrywiaeth eang o sefydliadau a gwasanaethau
- yn y gorffennol, nid yw digartrefedd wedi effeithio ar bobl hŷn gymaint ag y mae wedi effeithio ar grwpiau allweddol eraill; fodd bynnag, mae ymchwil

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gan Tai Pawb wedi tynnu sylw at y risgiau a all godi oherwydd llety anaddas, landlordiaid gwael, a cham-drin domestig, a hefyd pobl hŷn yn gadael y carchar

- mae'r 'Papur gwyn ar ddigartrefedd' yn ceisio helpu pobl hŷn, ymhlith grwpiau eraill o bobl â nodweddion gwarchodedig; er enghraifft, mae'n cynnig newidiadau i gamau ataliol a gymerir gan awdurdod lleol, ac ehangu cyfrifoldeb dros atal a lliniaru digartrefedd i gynnwys mwy o sefydliadau
- bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 16 Ionawr 2024; i gwblhau ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, ewch i'r **papur gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru**
- mynegwyd pryderon ynghylch yr hyn a allai ddigwydd i gyn-filwyr, yn enwedig cyn-filwyr iau, pan fyddant yn gadael y lluoedd arfog; mae'r ddeddfwriaeth wedi newid, sy'n golygu nad yw'r blynyddoedd a dreulir yn gwasanaethu bellach yn cael eu cyfrif ar restr dai eu hawdurdodau lleol
- roedd pryderon hefyd ynghylch y cynnydd mewn prisiau rhent, a landlordiaid sy'n cyflwyno gorchmynion troi allan mewn argyfwng; gellir gwthio pobl hŷn allan o'u cartrefi, a hefyd rhai ardaloedd, er mwyn rhoi lle i ddemograffeg iau, yn enwedig mewn trefi prifysgol
- maes arall sy'n destun pryder yw rhyddhau cleifion o'r ysbyty; weithiau, ni all person hŷn ddychwelyd i'w gartref gan nad yw'r cartref yn addas mwyach; ni ellir rhyddhau person i fod yn ddigartref, ac mae hyn yn y papur gwyn, er bod angen ymchwilio'n fanylach i'r mater hwn; mae angen gweithio mewn modd trawslywodraethol rhwng y timau sy'n arwain ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a digartrefedd i sicrhau bod pryderon fel hyn yn cael eu hamlygu
- wrth i gynigion gael eu datblygu ymhellach, dywedodd Henry Norman y byddai'n dod yn ôl i'r fforwm i drafod ymhellach
- ychydig iawn o ddata sydd ar gael am bobl hŷn a digartrefedd; mae angen mwy o ddata er mwyn inni allu datrys y broblem yn fwy effeithiol
- mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn hollbwysig er mwyn osgoi digartrefedd yn y lle cyntaf
- roedd awgrym y dylid ystyried "cartrefi am oes" yn ehangach yn ystod y cyfnod cynllunio ac adeiladu; er enghraifft, dylai proses gynllunio ystyried

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

poblogaeth sy'n heneiddio

## Cam gweithredu

Harri Norman i fynychu cyfarfod Fforwm Cynghori’r Gweinidog ar Heneiddio (MAFA) neu weithgor yn y dyfodol i drafod y pwnc hwn yn fanylach wrth i gynigion gael eu datblygu ymhellach.

# Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Nododd swyddogion y bu’r gwaith yn canolbwyntio ers y cyfarfod diwethaf ar adroddiad cynnydd 6 misol y strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, yn ogystal â'r gwaith o benodi comisiynydd pobl hŷn newydd i Gymru. Cafodd y ddeddfwriaeth ei diwygio i adlewyrchu tymor saith mlynedd newydd penodiad y Comisiynydd newydd, a bydd yr hysbyseb ar gyfer y swydd yn cael ei chyhoeddi ddechrau mis Ionawr 2024.

Cytunwyd y byddai is-grwpiau yn cael eu hailgyflwyno, gyda'r grwpiau cyntaf yn canolbwyntio ar yr adolygiad cynnydd 6 misol, tai a digartrefedd ac ailagor gwasanaethau dydd, sy'n cael ei arwain gan dîm arall yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Cam gweithredu

Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu a gwahodd aelodau MAFA i gyfarfodydd is-grŵpiau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cymunedau oed-gyfeillgar a thrafodaeth

Cyflwynodd aelodau newydd MAFA, o rwydwaith oed-gyfeillgar yr awdurdodau lleol, eu hunain gan ddisgrifio rhywfaint o'r gwaith a wneir yn eu hardaloedd:

### Mirain Llwyd Roberts, Cyngor Gwynedd

Mae awdurdod lleol Gwynedd bron wedi cwblhau ei gais am fynediad i Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd ("y Rhwydwaith Byd-eang").

Un o'r prif faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn yn yr ardal hon yw trafnidiaeth.

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ymgymryd â gwaith pontio'r cenedlaethau, ac mae ganddo enghreifftiau gwych o arferion da.

Mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall sut y gall yr awdurdod lleol gyrraedd oedolion hŷn mewn modd mwy effeithiol. Mae prosiect diweddar, "Taith trwy Wynedd" wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth gyrraedd pobl hŷn anodd eu cyrraedd.

### Adam Greenow, Cyngor Powys

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi recriwtio 13 o gynrychiolwyr newydd ar gyfer pobl hŷn, ac maent yn eistedd ar y gwahanol fforymau ar draws Powys.

Gan fod Powys yn ardal mor fawr a gwledig, gall fod yn anodd dod â phobl at ei gilydd. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn cynnal sioe deithiol sydd â'r nod o gasglu adborth a sylwadau ar wasanaethau amrywiol ar draws y rhanbarth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Norma Mackie, Cyngor Caerdydd

Mae Caerdydd wedi bod yn aelod o'r Rhwydwaith Byd-eang ers 18 mis, ac mae'r cynnydd a welir yn y maes hwn yn wych, gyda lansiad gwefan sy'n cyfeirio pobl hŷn at wasanaethau allweddol, a chylchlythyr sy'n cael ei gyhoeddi'n ddigidol a thrwy dulliau nad ydynt yn ddigidol bob 3 mis.

Mae Caerdydd wedi gweld llawer o broblemau sy'n gysylltiedig â pobl hŷn yn mynd yn ynysig ers y pandemig COVID, ac felly mae wedi mynd ati i ddod â phobl at ei gilydd wyneb yn wyneb a thrwy ddulliau hybrid.

## Hayley Gwilliam, Cyngor Abertawe

Mae Abertawe wedi gwneud cais i'r Rhwydwaith Byd-eang, ac mae'n aros am y canlyniad.

Cynhelir llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol i bobl hŷn yn Abertawe, ac yn ogystal â dod â phobl ynghyd, mae'r awdurdod lleol yn gallu manteisio ar y cyfle i glywed gan unigolion. Mae yna deithiau cerdded, clybiau bowlio, boreau coffi, a chôr gyda thros 300 o bobl.

Mae "gorsaf gydweithredu" wedi cael ei datblygu gan swyddogion y cyngor sy'n gweithio ar bolisi pobl hŷn. Mae hwn yn fan lle gall pobl ymweld ag ef, ac o bosibl gael eu cyfeirio at wasanaethau eraill y cyngor.

Mae rôl y hyrwyddwr oed-gyfeillgar yn Abertawe yn golygu bod eiriolwr dros bobl hŷn o fewn yr awdurdod lleol i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn cyfarfodydd ac wrth wneud penderfyniadau polisi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Sarah Rossington-Harris, Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr

Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd Sarah yn gallu cymryd rhan lawn yn y cyfarfod heddiw, ond fe ailadroddodd fod yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar yr un meysydd â'r awdurdodau eraill, a bod lles pobl hŷn yn ganolog i'w waith.

Cytunwyd y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r aelodau newydd a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn iddynt gyfarfod yn iawn yn y Flwyddyn Newydd.

Gan nad oedd digon o amser i drafod yr eitem hon ar yr agenda yn fanwl, cytunwyd y byddai'n cael ei rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

## Cam gweithredu

Swyddogion Llywodraeth Cymru i drefnu cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac aelodau newydd MAFA.

Swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau Oed-gyfeillgar yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2024.

# Yr hawl i dai digonol, 'Cyflwr tai pobl hŷn' yng Nghymru

Mae Gofal a Thrwsio yn elusen tai sy'n addasu ac yn gwella cartrefi. Mae ganddi 13 o asiantaethau ledled Cymru, ac mae'n gweithredu ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae ganddi nifer o raglenni gwahanol ar waith, fel ei rhaglenni o'r ysbyty i gartref iachach ac ymdopi'n well - pobl 50+ sy'n byw gyda cholled synhwyraidd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi cynyddu'n aruthrol, ac maent yn fwyfwy cymhleth o ran eu natur oherwydd iddynt gael eu nodi yn llawer hwyrach.

Cafodd adroddiad **cyflwr tai pobl hŷn yng Nghymru** ei lansio yn gynharach eleni.

Mae nifer o heriau - cyflwr tai yn dirywio, codiadau mewn costau gwaith gwella, prinder contractwyr dibynadwy, cymhlethdod cynyddol o ran cwblhau gwaith i gefnogi rhywun mewn modd sy'n sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn ddigon annibynnol i allu byw gartref.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- mae hon yn broblem sylweddol ym Mhowys gan ei bod yn ardal mor wledig; mae pobl yn gyfoethog o ran eu hasedau ond yn dlawd o ran arian parod; byddai angen gwneud atgyweiriadau sylweddol i'r eiddo hyn
- gall amharodrwydd unigolion i symud fod yn broblem, ond wedyn mae ganddynt yr hawl i aros yn eu cartrefi
- mae'n bwysig herio'r syniad bod pobl sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn iawn ac yn gallu fforddio atgyweiriadau a gwelliannau i'w cartrefi
- pe bai gennym gyfraith, yna byddai angen y seilwaith i wneud iddi weithio; nodwyd hefyd nad yw llawer o ddyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd; mae'n rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod gydag adnoddau

## Unrhyw fater arall, a dyddiad y cyfarfod nesaf

Roedd cytundeb cyffredinol y dylai cyfarfodydd MAFA fod yn 2 awr o hyd yn hytrach na 1.5 awr er mwyn caniatáu trafodaethau manylach.

Cadarnhawyd mai 20 Mawrth 2024 yw dyddiad y cyfarfod nesaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd y cyfarfod ym mis Mehefin yn gyfarfod hybrid, a gall pobl fynychu wyneb yn wyneb yn adeiladau Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Bydd rhagor o fanylion yn dilyn.

Ni chofnodwyd unrhyw faterion eraill, a daeth y cyfarfod i ben.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-fforwm-cynghorir-gweinidog-ar-heneiddio-14-rhagfyr-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.